**Cofnodion o gyfarfod Cyngor Cymuned Llanrug a gynhaliwyd am 7:00 y.h. Nos Fawrth, 18 Ionawr 2022 drwy Zoom.**

**Presennol:** Y Cynghorwyr Hefin Jones (Cadeirydd), Avril Jones (Is-gadeirydd), Alan Pritchard, Cemlyn Jones, Sioned Jones, Goronwy Hughes, Meirwen Lloyd, Martin Jones, Berwyn Parry Jones, Richard Robinson

**Ymddiheuriadau:** Y Cynghorwyr Beca Brown, Elliw Griffith, Haf Williams

**Clerc:** Meirion Jones

**Aelodau o'r cyhoedd:** Neb

**928. I dderbyn croeso gan y Cadeirydd**

Estynnwyd croeso i bawb i'r cyfarfod

**929. Derbyn ymddiheuriadau.**

Derbyniwyd ymddiheuriadau fel a nodwyd uchod

**930. Datgan buddiant personol.**

**Eitem 941 –** Y Cynghorydd Goronwy Hughes – datganwyd diddordeb personol a rhagfarnllyd ac fe ymadawodd y cyfarfod a ni chymerodd unrhyw ran yn y penderfyniad

**Eitem 942 –** Y Cynghorwyr Goronwy Hughes a Hefin Jones - datganwyd diddordeb personol a rhagfarnllyd ac ymadawyd y cyfarfod a ni chymerwyd unrhyw ran yn y penderfyniad

**931. Cadarnhau cofnodion cyfarfod 21 Rhagfyr 2021**

Cadarnhawyd y cofnodion yn gywir ac fe'i arwyddwyd gan y cadeirydd

**932. I dderbyn unrhyw sylwadau yn codi o'r cofnodion.**

Adroddodd y Cynghorydd Richard Robinson ei fod wedi bod yn y fynwent yn tacluso'r llythyrau oedd wedi gwlychu ac wedi chwythu oddi ar y stêcs. Nodwyd hefyd nad oedd yn bosib ail-gylchu blodau plastig a byddai angen edrych ar hyn o safbwynt polisi o weithredu yn gynaliadwy ar gyfer y dyfodol.

**933. I gymeradwyo absenoldeb y Cynghorydd Haf Williams o'r cyngor am gyfnod.**

Mae Deddf Llywodraeth Leol 1972 yn rhoi'r hawl i'r cyngor gymeradwyo absenoldeb aelod o'r cyngor am gyfnod penodol. Mae'r absenoldeb yn berthnasol ar gyfer unrhyw bwyllgor mae'r cynghorydd yn aelod ohono. Tydi'r

Ddeddf ddim yn nodi'r cyfnod felly mater i'r cyngor fydd penderfynu ar hyn. Ar ddiwedd y cyfnod, gellir cymeradwyo'r absenoldeb am gyfnod pellach.

Gofynnir i'r cyngor gymeradwyo absenoldeb a penderfynu ar gyfnod yr absenoldeb.

**Penderfynwyd:** Cymeradwyo i roi cyfnod o 6 mis o absenoldeb i'r Cynghorydd Haf Williams

**934. I dderbyn adroddiad gan y Cynghorydd Berwyn Parry Jones aelod dros Cwm y Glo ar Gyngor Gwynedd.**

**935. I dderbyn adroddiad gan y Cynghorydd Beca Brown, aelod dros Llanrug ar Gyngor Gwynedd**

**936. I dderbyn adroddiad gan y Bwyllgor y Fynwent**

Adroddwyd gan y Cynghorydd Philip Roberts, Cadeirydd Pwyllgor y Fynwent, fod y pwyllgor wedi cyfarfod ar 6ed o Ionawr 2022 drwy Zoom ac wedi cyfarfod yn y fynwent ar 9fed o Ionawr. Penderfynwyd ar nôd ac amcanion y pwyllgor ar gyfer 2022 / 2023 fel a ganlyn:-

a) Parhau i gario allan asesiad risg ar y fynwent;
b) Parhau i ddatblygu system i ddigideiddio'r fynwent a'r system reolaeth;
c) Parhau i ymgeisio yn nghystadleuaeth mynwent y flwyddyn
d) Monitro gofod yn y fynwent
e) Adolygu ffioedd y fynwent ar gyfer 2022/2023 (argymhellir ei codi 5% ar gyfer 2022/2023)
f) Mabwysiadu polisi gwyrdd pan fydd yn bosib
g) Rhoi hysbysfwrdd ychwanegol yn y fynwent

Penderfynwyd cysylltu a'r Eglwys yng Nghymru i'w hysbysu na fydd y cyngor yn parhau gyda'r cynllun o gymryd cyfrifoldeb am y fynwent ac hefyd i dynnu ei sylw at y wal sydd yn bochio ar y ffordd i'r fynwent.

Nodwyd hefyd i roi gwahoddiad i ymgymerwyr, seiri maen lleol i gyfarfod y pwyllgor i egluro am y gwaith sydd wedi ei wneud a'r cynlluniau am y dyfodol.

**Penderfynwyd:** Derbyn a diolch am yr adroddiad

**937. I dderbyn adroddiad gan y Pwyllgor Bwyd a Llesiant**

Adroddodd y Cynghorydd Berwyn Parry Jones ar ran y pwyllgor fod y pwysau o fwyd a dderbynnir wedi codi o 80kg yr wythnos i 120kg ac ein bod nawr wedi mewn cytundeb gyda Fareshare am 12 mis i ddarparu'r bwyd. Mae'r cyngor yn derbyn rhywfaint o fwyd drwy gynllun Olio (gellir cael mwy o wybodaeth am Olio drwy ymweld a'i gwefan www.olioex.com.

Diolchwyd am y rhodd o £50 a dderbyniwyd gan griw paned

Oherwydd fod cytundeb mewn lle nawr am 12 mis, a'r ymrwymiad mae hyn yn olygu ar yr aelodau'r cyngor ac aelodau o'r cyhoedd sydd yn gwirfoddoli yn wythnosol i ddosbarthu'r bwyd, yna bydd yn ofynnol chwilio am fwy o wirfoddolwyr i gynorthwyo.

**Penderfynwyd:** Derbyn a diolch am yr adroddiad

**938. I dderbyn adroddiad gan y Pwyllgor Hamdden a Mwynderau**

Adroddwyd gan y Cynghorydd Cemlyn Jones, cadeirydd y pwyllgor fod y pwyllgor wedi cyfarfod ar 10fed o Ionawr 2022. Ymysg y materion a drafodwyd oedd mabwysiadu nod ac amcanion y pwyllgor ar gyfer 2022 / 2023

a) Nodwyd fod adborth bositif wedi dderbyn am y goleuadau Nadolig
b) Edrych fewn i'r posibilrwydd o gael arwydd Nadolig Llawen a coeden Nadolig ar gyfer 2022 yn Llanrug a mwy o oleuadau ar y polion
c) Cario mlaen gyda cystadleuaeth addurno tŷ ar gyfer 2022 (nodwyd fod y nifer a gystadlwyd am 2021 wedi cynyddu i 2020 ac fod y gystadleuaeth yn boblogaidd iawn
d) Creu cystadleuaeth ar gyfer busnesai lleol ar gyfer Nadolig 2023
e) Parhau a'n ymgyrch i gael biniau cyffredin, biniau baw cŵn ynghyd a creu rhaglen o ddyddiadau casglu sbwriel yn Llanrug a Cwm y Glo
f) Parhau i blannu Cennin Pedr
g) Adnewyddu giât i gae chwarae Dolafon
h) Gosod main arall i gae chwarae Allt Goch, Cwm y Glo
i) Adnewyddu'r 'planters' ar y parc sglefrio a cau chwarae Allt Goch, Cwm y Glo

**Penderfynwyd:** Derbyn a diolch am yr adroddiad

**939. I dderbyn adroddiad gan y Pwyllgor Cyllid**

Adroddwyd gan y Cynghorydd Avril Jones, Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid fod y pwyllgor wedi cyfarfod ar 13ain o Ionawr 2022. Ymysg y materion a drafodwyd oedd addasu'r gyllideb ar gyfer 2021 / 2022, paratoi cyllideb ar gyfer 2022 / 2023 gan ysturied nod ac amcanion y pwyllgorau ar gyfer 2022 / 2023.

Er mwyn symud ymlaen gyda cyfrif 'Poor House' nodwyd fod rheolau sefydlog y cyngor yn y Gymraeg yn unig ar hyn o bryd ac ni wnaiff 'Unity Trust' eu derbyn. Bydd angen chwilio am gyfieithydd i wneud y gwaith yma.

**Penderfynwyd:** Derbyn a diolch am yr adroddiad

**940. I gymeradwyo cyllideb ar gyfer 2022 / 2023 a gosod y praesept ar gyfer 2022 / 2023**

**Penderfynwyd:**

Cymeradwywyd y gyllideb ar gyfer 2022 / 2023 ;
Penderfynwyd codi praesept ar gyfer 2022 / 2023 o £77,000

**941,** **I ystyried cais am grant oddiwrth Y Sefydliad Coffa**

**Penderfynwyd:** Caniatáu grant o £2,500 i'r Sefydliad Coffa

**942.** **I ystyried cais am grant oddiwrth Eco'r Wyddfa**

**Penderfynwyd:** Caniatáu grant o £800 i Eco'r Wyddfa

**943.** **Ceisiadau Cynllunio – am fwy o fanylion am y ceisiadau yma, dilynwch y linc yma ble gellir chwilio am y cais drwy ddyfynnu 'Rhif y cais'.**
**https://amg.gwynedd.llyw.cymru/planning/index.html?fa=search**

a) DEDDF CYNLLUNIO GWLAD A THREF 1990 - Apêl o dan Adran 78(i)

Rhif Achos: CAS-01422-W8B4Z5

Lleoliad: Pafin Ger 37 Nant Y Glyn, Llanrug, Caernarfon, LL55 4JA

Manylion: Codi polyn telegyfathrebu 15m a chyfarpar offer.

Cyfeirnod Cyngor Gwynedd: C21/0783/23/HT

Dyddiad Cychwyn yr Apêl: 12-01-2022

Enw'r Apelydd: CK Hutchison Networks (UK) Lt

Nodwyd mai apêl ydi hwn yn dilyn penderfyniad Cyngor Gwynedd i beidio caniatáu hawl cynllunio. Adroddwyd fod y cais yma eisoes wedi ei wrthwynebu gan y cyngor yn ei gyfarfod ar 15fed o Fehefin 2021. Mae cyfle nawr i'r cyngor anfon sylwadau ar gyfer yr apêl.

**Penderfynwyd:** Parhau i wrthwynebu'r cais ac i anfon ein sylwadau blaenorol i fewn.

Daeth y cyfarfod i ben am 21:20

Arwyddwyd:

Cadeirydd: Dyddiad: 15 Chwefror 2022